# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)06-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 26 Chwefror 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)05-08 (Draft minutes) - Dydd Mawrth 19 Chwefror 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)06-08(p1)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mawrth er mwyn dwyn ymlaen y cynigion canlynol:

Cynnig i sefydlu ac ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân Domestig.

Cynnig i sefydlu ac ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar Ad-drefnu Gwasanaethau yng Ngogledd Cymru, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.3 Cytunodd y pwyllgor na chaiff y cyfnod pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.4 Nodwyd y drefn busnes ar gyfer 26 a 27 Chwefror 2008 gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)06-08(p2)**

3.5 Nodwyd amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)06-08(p3)**

3.6 Cytunodd y pwyllgor i drefnu'r eitemau busnes y Cynulliad canlynol ar gyfer dydd Mercher, 5 Mawrth 2008:

Cynnig i newid aelodaeth y Pwyllgor Archwilio.

Cynnig i newid aelodaeth y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a Gweithdrefn Gwyno'r Aelodau.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Llythyr oddi wrth Ann Jones a phapur ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig a gynigiwyd ganddi ynghylch Diogelwch Tân Domestig - BC(3)06-08(p4) a BC(3)06-08(p5)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cais gan Ann Jones i sefydlu pwyllgor i ystyried y GCD a gynigwyd ganddi fel Aelod "'Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008'" ynghylch Diogelwch Tân Domestig". "Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r pwyllgor i ystyried y Gorchymyn yn cael ei sefydlu a'i ethol ddydd Mawrth, 26 Chwefror 2008. Cytunodd y Pwyllgor hefyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor GCD gyflwyno adroddiad fyddai 11 wythnos eistedd ar ôl sefydlu'r Pwyllgor.

**5. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Papur gan y Gwasanaeth Pwyllgorau: Amserlen Pwyllgorau - BC(3)06-08(p6)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur ar gynigion ar amserlen y Pwyllgorau ar gyfer tymor yr haf. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'n trafod gyda'i grŵp fater cynnal cyfarfodydd pwyllgor ar brynhawniau Iau. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried yr opsiynau a amlinellwyd yn y papur ac i drafod y mater eto yn ei gyfarfod nesaf.

**Cais am slot ychwanegol ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid - BC(3)06-08(p7)**

5.2 Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi derbyn cais gan y Pwyllgor Cyllid i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ddydd Iau 28 Chwefror 2008 i ystyried y cynnig ar gyfer y Gyllideb Atodol. Nododd y Pwyllgor Busnes fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r cynnig Cyllideb Atodol ddydd Iau 19 Chwefror 2008 a bod y Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid gael tair wythnos i gyflwyno adroddiad ar y cynnig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais.

**6. Unrhyw Fater Arall**

6.1Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gynigion i ostwng maint y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Gan na ellid cyrraedd consensws cytunwyd y dylai'r Pwyllgor aros yn ei faint presennol.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**